**Amodau'r Drwydded – Pysgodfa Hamdden Dal a Rhyddhau Tiwna Asgell Las 2025**

## YR ARDAL AWDURDODEDIG

Mae'r Drwydded hon yn ymwneud â'r parth Cymreig yn unig, o 500m o farc distyll y gorllanw ar y morlin tua'r môr yn yr ardal felen a ddangosir yn Atodiad 1. Caniateir pysgota mewn ardal i'r de o linell derfyn a dynnir tua'r gorllewin o Drwyn Dinllaen ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn hyd at y llinell ganol â dyfroedd tiriogaethol Iwerddon ac i'r gorllewin o linell derfyn a dynnir tua'r de o Oleudy'r Mwmbwls, Abertawe, i'r llinell ganol â Dyfroedd Lloegr.

Nid yw'r ardal awdurdodedig hon yn cynnwys cilfachau ac aberoedd e.e. Aberdaugleddau, a bydd y tu allan i'r byffer o 500m o ddistyll astronomaidd (Datwm Siartiau) y morlin gan gynnwys Ynysoedd Sgomer, Sgogwm, Dewi ac Enlli.

Ni chaniateir pysgota o fewn AGA Ynys Gwales, AGA Bae Caerfyrddin nac AGA Gogledd Bae Ceredigion na chwaith yn y rhan o'r môr rhwng y morlin a ffin ddwyreiniol AGA Gogledd Bae Ceredigion.

## AMODAU

1. Caniateir pysgota â gwialen a lein yn unig.
2. Rhaid rhyddhau yn ddianaf pob tiwna asgell las a ddelir, os medrir.
3. Rhaid **peidio â** chodi tiwna asgell las a ddelir o'r môr, ei dynnu ar fwrdd cwch, ei drosglwyddo i gwch arall na'i lanio.
4. Rhaid rhoi gwybod am y gweithgaredd o fewn 24 awr ar ôl diwedd pob taith bysgota.
5. Rhaid i'r Person Awdurdodedig/Meistr gydymffurfio â'r holl ofynion a chyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru a/neu Swyddog Gorfodi Morol.
6. Rhaid i'r person awdurdodedig/meistr gydymffurfio â'r protocol sgil-ddalfeydd (Atodiad 2).
7. **Terfynu:** Caiff Gweinidogion Cymru fel y gwelant yn dda dynnu'r Awdurdodiad hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Lle medrir, rhoddir rhybudd ymlaen llaw o'r bwriad i dynnu'r drwydded yn ôl, ond o dan unrhyw un neu rai o'r amgylchiadau a ganlyn, caniateir tynnu'r drwydded yn ôl ar unwaith (h.y. heb rybudd ymlaen llaw):

    a. mewn argyfwng;

b. os yw'r Person Awdurdodedig yn torri unrhyw un o amodau'r Awdurdodiad hwn;
c. os yw’r gweithgareddau a awdurdodir gan yr Awdurdodiad hwn yn arwain neu'n debygol o arwain at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490).

d. os yw'r bysgodfa wedi'i chau am fod y cwota wedi'i ddefnyddio.

**RHOI GWYBOD AM DDALFEYDD**

Perchennog y drwydded sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion adrodd a nodir yn yr adran hon.

Ar gyfer pob taith y mae cwch y drwydded yn pysgota am diwna asgell las arni o dan awdurdod y drwydded, rhaid i berchennog y cwch sicrhau bod y meistr yn darparu cofnod o'r canlynol: (P'un a oes tiwna asgell las yn cael ei ddal yn ystod y daith ai peidio).

- rhif y drwydded,
- enw a chyfeiriad y meistr,
- enw cwch pysgota hamdden y DU
- dyddiad y daith bysgota,
- nifer y tiwna asgell las a ddaliwyd (rhowch sero os na chafodd un ei ddal),
- hyd pob tiwna asgell las a ddelir,
- a gafodd y pysgodyn ei ryddhau'n fyw neu'n farw.
- manylion unrhyw sgil-ddalfa


Rhaid i'r meistr gyflwyno'r wybodaeth y gofynnir amdani **o fewn 24 awr** ar ôl diwedd pob taith bysgota yn y fformat y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru.

Perchennog y drwydded sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r amodau a'r gofynion adrodd a nodir yn y drwydded hon.

**Pwysig:**

Rhaid i unrhyw un sy'n pysgota am diwna asgell las trwy'r drwydded gydymffurfio â phob deddfwriaeth gymwys arall (gan gynnwys darpariaethau sy’n ymwneud ac nad ydynt yn ymwneud â'r bysgodfa, a rhai domestig ac Ewropeaidd) sy'n berthnasol i weithgarwch yn y lleoliad hwn. Gan gynnwys y gofyniad i gario Tystysgrif Llongau Masnachol Bach ddilys yn unol â Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) 1998.

ATODIAD 1 – Siart ddarluniadol o'r ardal awdurdodedig



Atodiad 2 – Protocol Sgil-ddalfeydd

| Gradd | Disgrifiad | Gweithred | Effaith |
|---|---|---|---|
| Risg leiaf | Nid oes mamal y môr nac aderyn penodedig i'w weld, neu os oes, un yn unig a welir, yn bell iawn i ffwrdd. | Aiff y pysgota yn ei flaen fel arfer. Mae'r arsyllwr a/neu'r capten yn dweud wrth y criw bod un o bosibl wedi'i weld. | Mwy o ymwybyddiaeth ar fwrdd y cwch. |
| Byddwch effro | Rhywogaethau'n actif yng nghyffiniau'r cwch.<br>Gall mamaliaid y môr ddod yn agos at gwch, neu nofio o'i gwmpas, oherwydd chwilfrydedd neu gael eu denu at y bar taenu abwyd ffug.<br>Bydd mamaliaid y môr yn chwilfrydig a chwareus yn hytrach na hela.<br>Gall adar fod yn cylchdroi neu'n gorffwys ar ddŵr gerllaw. | Aiff y pysgota yn ei flaen fel arfer. Bydd y capten a'r holl griw yn effro i risgiau allai ddatblygu a bod yn barod i'w hosgoi. | Mae'r pysgota yn parhau ond angen cadw golwg fanylach ar y risgiau ac ymddygiad anifeiliaid er mwyn gallu cymryd camau effeithiol cyn i gysylltiad ddigwydd. |
| Osgoi | Mae'r rhywogaethau dan sylw yn dechrau cysylltu â'r abwyd neu'r abwyd ffug.<br>Er enghraifft, mae'r capten a/neu'r arsyllwr yn credu bod mamaliaid y môr yn hela ac/neu'n targedu'r abwyd.<br>Neu mae'r capten a/neu'r arsyllwr yn gweld adar yn plymio am yr abwyd. | Bydd y Capten yn gorchymyn y criw i dynnu'r leins, y tacl a'r abwyd i mewn ar unwaith.<br>Bydd y capten yn symud allan o'r ardal ar unwaith. | Rhoddir stop am gyfnod i'r pysgota tra bo'r risg o gysylltu yn pasio. Gall y pysgota ailddechrau unwaith y byddwch yn ôl i'r lefel 'Byddwch Effro'. |
| Rhoi'r gorau iddi ac adolygu | Mae mamal y môr neu aderyn yn cael ei fachu/ddal trwy ddamwain. | **<u>Dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*)</u>**<br>*Cyfarwyddiadau i gapteiniaid:*<br>• Bydd y Capten yn gorchymyn y criw i dynnu leins, tacl ac abwyd i mewn ar unwaith a chaiff y dolffin ei ryddhau yn ddianaf os medrir. | Cyfyngu ar ragor o anaf i anifeiliaid neu ddifrod i amcanion cadwraethol ardaloedd morol gwarchodedig perthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | <ul><li>Bydd y Capten yn symud allan o'r ardal ar unwaith ac yn rhoi'r gorau i bysgota tiwna am y dydd.</li><li>Bydd y Capten yn rhoi gwybod i'r WFMC bod y dolffin wedi'i ddal, a bydd y WFMS yn rhoi gwybod i Wyddoniaeth LIC ac CNC.</li></ul>*Adolygu'r broses*<br>Cyn gynted â phosibl ar ôl cofnodi bod yr anifail wedi'i ddal, bydd yr arsyllwr, y capten, Gwyddoniaeth LIC ac CNC yn adolygu'r sefyllfa i ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd. Man cychwyn y drafodaeth fydd datganiad AEOSI Marwolaethau Mamaliaid CNC (NRW2022) ar y sefyllfa. Os bernir bod y dolffin a ddaliwyd yn debygol o fod yn rhan o boblogaeth MMMU Môr Iwerddon, ac iddo gael ei anafu'n gas (gweler e.e. meini prawf anafiadau difrifol NMFS (2012) am ragor o wybodaeth), yna rhoddir y gorau'n llwyr i bysgota am diwna.<br>Os bernir nad yw'r dolffin yn debygol o fod yn rhan o MMMU Môr Iwerddon neu os na chafodd ei anafu'n gas, rhaid addasu'r drefn osgoi cysylltiadau a gellir ailddechrau pysgota am diwna ond gyda gofal.<br>Os derbynnir sawl adroddiad gan wahanol longau ar ddiwrnodau gwahanol bod dolffiniad wedi'u dal, yna bydd angen rhagor o drefniadau osgoi neu ailasesu'r effaith.<br>**<u>Pob rhywogaeth arall o famal y môr neu adar penodedig</u>**<br>Cyfarwyddiadau i gapteiniaid:<ul><li>Bydd y Capten yn gorchymyn y criw i dynnu leins, tacl ac abwyd i mewn ar unwaith a chaiff yr anifail ei ryddhau yn ddianaf os medrir.</li><li>Bydd y Capten yn symud allan o'r ardal ar unwaith.</li><li>Bydd y Capten yn rhoi gwybod i'r WFMC bod yr anifail wedi'i ddal, a bydd y WFMS yn rhoi gwybod i Wyddoniaeth LIC ac CNC.</li><li>Bydd y Capten yn ailddechrau pysgota am diwna y diwrnod hwnnw pan fydd lefel y gweithgarwch yn ôl i 'Byddwch Effro" a bod Gwyddoniaeth LIC ac CNC wedi cael gwybod.</li><li>Os caiff rhagor o'r un rhywogaeth neu rywogaeth</li></ul> | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | benodedig ei dal yr un diwrnod, bydd y capten yn rhoi gwybod i'r WFMC ba rywogaeth a ddaliwyd ac yn rhoi'r gorau i bysgota am diwna am y dydd.<br>*Adolygu’r broses*<br>Cyn gynted â phosibl ar ôl cofnodi bod yr anifail wedi'i ddal, bydd yr arsyllwr, y capten, Gwyddoniaeth LlC ac CNC yn adolygu'r sefyllfa i ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd. Os oes angen, caiff y trefniadau osgoi rhyngweithio eu haddasu.<br>Os derbynnir sawl adroddiad gan wahanol longau ar ddiwrnodau gwahanol bod rhywogaethau wedi'u dal, yna bydd angen rhagor o drefniadau osgoi neu ailasesu'r effaith ar y rhywogaeth berthnasol.<br>**Gwybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiad i WFMC a fydd yn cael ei hanfon i Wyddoniaeth LlC ac CNC**<br>• Amser dal<br>• Lleoliad dal<br>• Dull pysgota adeg dal yr anifail<br>• Sut cafodd ei ddal (e.e. cymryd abwyd, ei fachu, taro'r cwch)<br>• Ymddygiad yr anifail cyn ei ddal<br>• Beth cafodd ei wneud i osgoi dal yr anifail<br>• Beth cafodd ei wneud ar ôl ei ddal<br>• Cyflwr yr anifail ar ôl ei ddal, ac os cafodd ei ryddhau, adeg ei ryddhau<br>• Lluniau o'r anifail, os oes rhai | |